



Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018 - 202Y

Cyngor Ysgol Dolbadarn

Mae pob un o blant Ysgol Dolbadarn yn wahanol i`w gilydd ond cawn ein trin yn deg

Rydym yn gwybod fod pawb yn cael ei drin yr un fath, er ein bod yn wahanol.

Rydym i gyd yn cael ein gwerthfawrogi ac yn teimlo`n saff yn yr ysgol ac yn cael ein paratoi i fod yn hyderus .

Mae`r staff yn disgwyl inni ymddwyn yn dda iawn ac ymgeisio o ddifrif i lwyddo .

Mae`r disgyblion a`r Staff, Llywodraethwyr a`r rhieni yma`n parchu ein gilydd.

Cawn gymorth os oes unrhywbeth yn ein rhwystro i ddysgu fel fod pawb ohonom yn derbyn yr un cyfle.

Bydd gan y staff reolau i`w dilyn pan fydd un ohonom yn ymddwyn yn wahanol i`r arfer.

Cawn ein paratoi i herio rhywun sy`n ymosodol ac i ddelio â nhw.

Mae`r Llywodraethwyr yn trin pawb ohonom yr un fath a`i gilydd.

Maent yn barod i dderbyn pobl gydag anabledau i Ysgol Dolbadarn gan wneud yn siwr fod yr amgylchedd yn addas ar eu cyfer.

Mae holl staff yr Ysgol a`r Pennaeth yn gwybod am y cynllun hwn - Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae`r staff sy`n helpu`n y dosbarth yn bositif pan fydd digwyddiad gwahanol i`r arfer yn cymeryd lle.

Caiff y polisi hwn ei:-

Roi yn y swyddfa

Roi i bawb sy`n dod i weithio`n yr Ysgol

Roi i bob rhiant, gofalwr

Bydd ar gael i ymwlewyd ac aelodau`r gymuned os y byddan nhw`n gofyn amdano

Caiff ei roi yn Llawlyfr yr Ysgol / ar Wefan yr Ysgol / ei arddangos yn yr Ysgol.

Caiff unrhyw un ofyn am gopi ohono.

Bydd y staff yn ail-edrych drosto bob pedair blynedd; rhag ofn y byddwn angen newid rhannau ohono

Os na fydd un ohonom yn cyrraedd ble y dylem ei gyrraedd yn ein addysg, yna bydd targedau arbennig wedi eu llunio inni eu cyrraedd

Mae disgwyl inni ddod i`r Ysgol bob dydd os nad oes rhesymau pendant am yr absenoldeb

Tydi bwlio ac ymddwyn yn amhriodol ddim yn cael ei dderbyn. Caiff y plant eu disgyblu ar unwaith

Mae staff yr Ysgol yn cymeryd pob cam i geisio atal gwahardd plant o`r Ysgol.

Os nad yw plentyn yn deall Saesneg pan ddaw atom, na`i rieni`n deall Saesneg, yna bydd yna rhywun yno i gyfieithu ar eu cyfer.

Gwahaniaethu - Sut rydym yn wahanol?

Ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadaeth rhywiol, anabledd, newid o ran rhyw, crefydd, anffyddiaeth, iaith, cenedl, sipsi, dieithwyr, ffoaduriaid, pobl yn chwilio am noddfa.

MAE PAWB I GAEL EI DRIN YN GYFARTAL

Cadierydd y Llywodaethwyr _____

Pennaeth _____

Cadeirydd Y Cyngor Jack Lawes Dyddiad : Hydref 3ydd 2018